**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU

# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**11.00am, DYDD LLUN, 1 GORFFENNAF, 2013**

**11.00am, MONDAY, 1 JULY, 2013**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gwyrfai,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 21/06/13*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Charles Wyn Jones
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

**Aelodau Annibynnol / Independent Members (5)**

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
Dr Einir Young

**Aelod Pwyllgor Cymuned / Community Committee Member (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2013 fel rhai cywir (copi yma – papur melyn).

**5. CAIS AM ODDEFEB GAN Y CYNGHORYDD MIKE STEVENS**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur glas).

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2012-13**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur lelog).

**7. ADBORTH O'R GYNHADLEDD SAFONAU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur eog).

**8. RHAGLEN WAITH**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur gwyrdd).

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur pinc).

**10. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwyno cofnodion cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2013 (copi yma – papur llwyd).

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2012-13**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur hufen).

# PWYLLGOR SAFONAU, 28.01.13

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Charles Wyn Jones, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones a Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:-** Mr Sam Soysa (Aelod Annibynnol).

**1. CROESO**

Croesawyd Dr Einir Young i'r cyfarfod yn sgil ei phenodiad yn aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATER BRYS – CAIS AM ODDEFEB GAN Y CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS**

Nid oedd y mater hwn wedi'i gynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd iddo gael ei drafod fel eitem frys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd bod y cynghorydd yn dymuno siarad yn y trafodaethau lleol ynglŷn ag ad-drefnu addysg gynradd yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau, er bod ganddo gysylltiad â'r mater.

Cytunwyd i ymdrin â'r cais o dan eitem 5 ar y rhaglen.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2012 fel rhai cywir.

<u>Mater yn codi o'r cofnodion</u>
<u>Eitem 9 – Rhaglen Waith</u>

Nododd y Swyddog Monitro y cyhoeddwyd dyddiadau drafft ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor am y flwyddyn i ddod, sef 1 Gorffennaf a 30 Medi, 2013 a 27 Ionawr a 7 Ebrill, 2014. 'Roedd y dyddiadau hyn yn dilyn y patrwm hanesyddol o gynnal y pwyllgor ar fore Llun a gofynnodd i'r aelodau a ddymunent barhau â'r drefn yma.

**PENDERFYNWYD parhau â'r drefn o gynnal y Pwyllgor Safonau ar fore Llun.**

## 5. CEISIADAU AM ODDEFEB

### (A) Cais y Cynghorydd Dyfrig Jones

Cyflwynwyd – cais am oddefeb gan y Cynghorydd Dyfrig Jones mewn cysylltiad â thrafodaethau Cyngor Cymuned Bethesda ynglŷn â neuaddau pentref yr ardal, gan gynnwys trefniadau ariannu.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod y Cynghorydd wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor rheoli un o'r neuaddau hynny. Ychwanegodd nad oedd y Cynghorydd yn cynrychioli'r cyngor cymuned ar bwyllgor y neuadd, a'i fod yno fel unigolyn. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cyffelyb gan aelodau eraill o'r cyngor cymuned erbyn dyddiad y cyfarfod hwn. Eglurodd ymhellach mai paragraff 81(4)(a) o'r Ddeddf oedd yn berthnasol yn yr achos hwn, sef:-

*"Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan Adran 81(4) o'r ddeddf –*

*(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw."*

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach fod yr arian i'w ddyrannu yn debygol o fod yn fwy na £500, ond petai'n llai na hynny, na fyddai'n rhaid i'r Cynghorydd gyflwyno cais am oddefeb. Ychwanegodd fod rhagor na hanner aelodau'r Cyngor Cymuned hefyd yn eistedd ar bwyllgorau un o'r pedair neuadd yn ardal y Cyngor Cymuned, a phe na chaniateid goddefeb i'r Cynghorydd Dyfrig Jones, na'r aelodau eraill o'r Cyngor Cymuned sydd hefyd yn gwasanaethu ar bwyllgor neuadd, dau aelod yn unig o'r Cyngor Cymuned fyddai'n gallu cymryd rhan yn y drafodaeth.

Wrth ystyried y cais, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Bod hwn yn achos digon syml ac y byddai'n rhesymol ei ganiatáu neu, fel arall, ni fyddai yna gworwm yn y Cyngor Cymuned i drafod y mater.
- Y dylid hysbysu'r Clerc bod angen i aelodau eraill y Cyngor Cymuned sy'n eistedd ar bwyllgorau neuadd gyflwyno ceisiadau ar yr un llinellau hefyd.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am oddefeb.**

### (B) Cais y Cynghorydd Peredur Jenkins

Cyflwynwyd – cais am oddefeb gan y Cynghorydd Peredur Jenkins mewn cysylltiad â thrafodaethau ynglŷn ag ad-drefnu addysg gynradd yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau.

Nododd y Swyddog Monitro fod y Cynghorydd wedi gofyn yn wreiddiol am yr hawl i gyflwyno'i gais yn bersonol i'r Pwyllgor yn y cyfarfod, ond y bu'n rhaid iddo gyflwyno ymddiheuriad yn ddiweddarach oherwydd ymrwymiad arall.

Eglurodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith fod y cynlluniau ar gyfer y dalgylch wedi'u rhannu yn dair rhan sef (i) ysgolion ochr ddwyreiniol y dalgylch, (ii) ysgolion yr ochr orllewinol a (iii) ysgolion tref Dolgellau. 'Roedd y cais yn ymwneud â'r cynlluniau ar gyfer ysgolion dwyrain y dalgylch oherwydd bod merch y Cynghorydd yn brifathrawes dros dro ar ddwy o'r ysgolion yn yr ardal honno.

Yna cyfeiriodd at y canllawiau a osodwyd gan y Pwyllgor yn y gorffennol ar gyfer ceisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion, sef:-

*"Y byddai tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau."*

Serch hynny, caniatawyd i aelodau gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Paneli Adolygu Dalgylch ac i gymryd rhan lawn mewn trafodaethau yn y Cyngor a'i bwyllgorau ar faterion yn gysylltiedig â threfniadaeth ysgolion cynradd y sir, ond bai fod y trafodaethau hynny yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ysgol dan sylw. Nodwyd hefyd bod cais y Cynghorydd wedi ei gyfyngu i hawl i siarad yn y trafodaethau lleol yn unig, ac nid i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad.

Wrth ystyried y cais, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Nad oedd y cais hwn yn wahanol iawn i geisiadau eraill a gymeradwywyd yn y gorffennol.
- Y gallai rhoi gwaharddiad llwyr ar yr aelod wneud i'r cyhoedd feddwl nad oes gan eu cynghorydd lleol ddiddordeb yn y pwnc.

Ar bwynt mwy cyffredinol, ystyriwyd yr egwyddor o ganiatáu i gynghorwyr ymddangos gerbron y Pwyllgor i gyflwyno ceisiadau yn bersonol, yn hytrach na chyflwyno ffurflen gais yn unig. Awgrymwyd y byddai cael cyfle i holi ymgeiswyr yn fodd i'r Pwyllgor gael mwy o wybodaeth ynglŷn â chais. I'r gwrthwyneb, nodwyd na chredid bod hynny'r defnydd gorau o amser neb, ac y dylid gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth lawnach ymlaen llaw.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor sy'n cael eu cynnal yn yr ardal, ond na chaiff siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddo ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y mae'n cymryd rhan ynddo ei fod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arno, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd.**

**(b) Y dylai pob cynghorydd sy'n cael goddefeb yn y dyfodol gyflwyno datganiad yn egluro natur yr oddefeb honno mewn unrhyw gyfarfodydd a fynychir.**

**(c) Y dylai'r swyddogion ystyried a gynhwyswyd gwybodaeth ddigonol fel rhan o gais am oddefeb cyn ei osod ar raglen y Pwyllgor.**

## 6. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad llafar y Swyddog Monitro ynghyd â chofnodion cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 7 Ionawr, 2013.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 7. CYNHADLEDD SAFONAU 2013

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amlinellu trefniadau Cynhadledd Safonau 2013 ac yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu eu cynrychiolwyr ynghyd â blaenoriaethu rhestr wrth gefn os oes rhagor yn dymuno mynychu'r gynhadledd.

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cadeirydd, ynghyd â'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams, Ms Linda Byrne a Miss Margaret Jones i fynychu Cynhadledd Safonau 2013, gyda Dr Einir Young fel yr enw cyntaf wrth gefn a'r Cynghorydd Michael Sol Owen fel yr ail enw wrth gefn.**

## 8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers ei hadroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

Nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith, ymhellach i baratoi'r adroddiad, fod yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio ymhellach i'r gŵyn bod cynghorydd sir wedi defnyddio ei dudalen Facebook i geisio sylwadau negyddol gan y cyhoedd a bod rhai o'r sylwadau hynny yn sarhaus a di-sail. 'Roedd gan yr achwynydd bythefnos i ofyn i'r Ombwdsmon ail-ystyried ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 9. HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried gwahanol opsiynau a chynnig arweiniad ar greu rhaglen hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Wrth ystyried y mater, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Mynegwyd pryder nad oedd 11 cynghorydd sir (gan gynnwys 3 aelod newydd) wedi mynychu'r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a gynigiwyd fel rhan o'r drefn gyflwyno yn dilyn etholiadau mis Mai 2012, a bod angen rhoi blaenoriaeth i gau'r bwlch yma.
- Yn sgil cau'r bwlch uchod, dylid cynnig sesiwn adnewyddu yn flynyddol i'r holl gynghorwyr, gan gadw cofnod o'u presenoldeb.
- Y gellid cynnig hyfforddiant i gynghorwyr sir yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Ardal.
- Bod angen darparu hyfforddiant i aelodau ar ddatgan buddiant yn y maes cynllunio.
- Y dylai'r hyfforddiant gael ei becynnu mewn ffordd sy'n atyniadol i'r aelodau a bod yna wahanol ffyrdd o'i ddarparu, e.e. CD neu brawf ar-lein.
- Bod angen newid diwylliant gan nad oedd pobl yn credu eu bod angen hyfforddiant.
- Mai'r Clercod yw'r allwedd i gael gwell trefniadau yn y cynghorau cymuned, a heb eu cydweithrediad hwy, mae'n fwy anodd i'r cynghorwyr plwyf gael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at lythyr gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ynglŷn â Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol, dyddiedig 15 Ionawr, 2013, a ddosbarthwyd i'r aelodau gyda rhaglen y Pwyllgor. Yn ogystal â gofyn i gynghorau ymateb i gyfres o gwestiynau penodol, 'roedd y llythyr yn gwahodd sylwadau ar unrhyw agweddau eraill o'r Cod ac awgrymodd y gellid gofyn i'r Gweinidog gynnwys amod yn y Cod bod rhaid i bob cynghorydd dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

**PENDERFYNWYD**

**(a)** **Rhoi blaenoriaeth i ddarparu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i'r 11 cynghorydd sir oedd heb fynychu'r hyfforddiant a gynigiwyd fel rhan o'r drefn gyflwyno yn dilyn etholiadau mis Mai 2012.**

**(b)** **Cynnig sesiwn adnewyddu yn flynyddol i'r holl gynghorwyr sir, gan edrych ar ffyrdd gwahanol o ddarparu'r hyfforddiant, e.e. pwyllgorau ardal.**

**(c)** **Cynnig sesiynau penodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref a Chymuned gan fonitro sut mae'r hyfforddiant gydag Unllais Cymru yn symud yn ei flaen.**

**(ch)** **Cynnig sesiwn wedi ei theilwrio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.**

**(d)** **Bod angen ystyried dulliau gwahanol a mwy arloesol o gyflwyno hyfforddiant yn gyffredinol.**

**(dd)** **Gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gynnwys amod yn y cod bod rhaid i bob cynghorydd dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.**

## 10. BIL LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r Pwyllgor a ddymunent fynegi barn ac ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil uchod sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd, ac yn benodol y cynnig (yng Nghymal 63) sy'n ymwneud â sefydlu cydbwyllgorau safonau.

Yna cyfeiriodd y Swyddog Monitro at lythyr Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ynglŷn â Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol, gan ofyn i'r aelodau am eu barn ar chwe phwynt penodol yn y llythyr hwnnw, sef:-

1) Anogaeth i gynghorau sefydlu trefn ar gyfer datrys cwynion yn lleol yn hytrach na'u cyfeirio at yr Ombwdsmon.

2) Cais i gynghorau osod cap o £20,000 ar y lefel o indemniad a gynigir i aelodau sy'n wynebu achosion o gamymddwyn.

3) Y bwriad i dynnu allan o'r Cod Ymddygiad yr amod sy'n dweud bod rhaid i aelodau roi gwybod i'r Ombwdsmon am achosion posib' o dorri'r cod.

4) Y bwriad i dynnu allan o'r Cod Ymddygiad y cymal sy'n dweud bod gan aelod lleol fuddiant personol os oes gwrthdaro rhwng buddiannau ei ward a buddiannau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

5) Y bwriad i newid y canllawiau er mwyn gwneud yn glir nad yw gwneud sylw gwleidyddol, o reidrwydd, yn golygu torri'r cod.

6) Y bwriad i gynnwys amod yn y mesur bod rhaid cyhoeddi'r Gofrestr Buddiant ar-lein ar gyfer pob cyngor drwy'r wlad.

Gofynnid hefyd i'r Pwyllgor a ddymunent gyflwyno sylwadau ar unrhyw agweddau eraill o'r Cod a phenderfynwyd eisoes (o dan eitem 9 uchod) y dylid gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gynnwys amod yn y cod bod rhaid i bob cynghorydd dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Wrth ystyried y mater, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Y dylid gwrthod y syniad o sefydlu cyd-bwyllgorau safonau. Byddent yn glastwreiddio'r pwyllgorau safonau unigol. Er bod gan aelodau lleyg ddiddordeb brwd mewn gweld eu cyngor lleol yn gweithredu'n briodol, ni ellid bod yn sicr y byddent yn teimlo'r un mor frwdfrydig ynglŷn â gweithrediad cynghorau mewn

ardaloedd eraill. Hefyd, byddai'r trefniadau'n sicr o fod yn anhylaw a'r papurau'n mynd yn rhy feichus.

- Bod gan y Cyngor hwn drefn ar gyfer datrys anghydfodau rhwng aelod ac aelod ac aelod a swyddog yn lleol ac felly bod y Pwyllgor hwn eisoes yn cyflawni'r hyn 'roedd y Gweinidog yn ofyn amdano.
- Y farn gyffredinol yw bod cap o £20,000 ar y lefel o indemniad a gynigir i aelodau sy'n wynebu achosion o gamymddwyn yn rhy uchel. Dylid trafod pob achos yn unigol, ond yn ymarferol, bydd y Cyngor hwn yn rhoi llai nag £20,000 o indemniad.
- Cytuno â'r bwriad i dynnu allan o'r Cod Ymddygiad yr amod sy'n dweud bod rhaid i aelodau roi gwybod i'r Ombwdsmon am achosion posib' o dorri'r cod.
- Cytuno â'r bwriad i dynnu allan o'r Cod Ymddygiad y cymal sy'n dweud bod gan aelod lleol fuddiant personol os oes gwrthdaro rhwng buddiannau ei ward a buddiannau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- Cytuno â'r bwriad i newid y canllawiau er mwyn gwneud yn glir nad yw gwneud sylw gwleidyddol, o reidrwydd, yn golygu torri'r cod.
- Anghytuno â'r bwriad i gynnwys amod yn y mesur bod rhaid cyhoeddi'r Gofrestr Buddiant ar-lein ar gyfer pob cyngor drwy'r wlad. O safbwynt cynghorwyr plwyf, gallai hyn agor y drws i lawer o gecru. 'Roedd eisoes yn ddigon anodd cael gwirfoddolwyr ar y cynghorau plwyf beth bynnag a byddai gorfod gwneud datganiadau fel hyn yn troi pobl i ffwrdd. O safbwynt cynghorwyr sir a phlwyf, 'roedd gan yr unigolyn hawl i ofyn am yr wybodaeth beth bynnag, o dan y Ddeddf Hawl i Wybodaeth, a byddai gan y cyngor perthnasol gofnod o enw unrhyw un sydd wedi cyflwyno cais am wybodaeth o dan y ddeddf honno, yn wahanol i'r sefyllfa petai pobl wedi dod ar draws yr wybodaeth eu hunain wrth chwilota ar y we. Nodwyd hefyd nad yw canllawiau'r Llywodraeth ar gyfer yr aelodau Cynulliad mor haearnaidd.
- Y dylid gofyn i'r Gweinidog gynnwys amod yn y cod bod rhaid i bob cynghorydd dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad gan nodi bod hyfforddiant ym meysydd Cynllunio a Thrwyddedu yn orfodol i aelodau'r Cyngor hwn eisoes.
- Datgan anfodlonrwydd bod llythyr y Gweinidog wedi'i dderbyn yn uniaith Saesneg.

**PENDERFYNWYD cyflwyno'r sylwadau uchod i sylw'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.**

## 11. PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad diwygiedig y Swyddog Monitro ar y Protocol Rhoddion a Lletygarwch Aelodau yn sgil y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor ar 27 Tachwedd, 2012. Gofynnwyd am farn y pwyllgor ar y protocol diwygiedig, y dull o ddod â'r protocol i sylw'r cynghorwyr ynghyd â'r ffurflen gofrestru rhoddion a lletygarwch.

Wrth ystyried y mater, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Mewn ymateb i sylw nad oedd bob amser yn bosib' datgan rhodd o fewn 28 diwrnod, e.e. pan na dderbynnir bil am waith, nododd y Swyddog Monitro nad oedd yna ofyniad i gofrestru o fewn 28 diwrnod mewn achosion o'r fath.
- Awgrymwyd nad oedd yn briodol enwi aelodau o'r cyhoedd ar y gofrestr.
- Y dylid ymlynu at y trothwy o £25.
- Y dylai'r swyddogion wneud trefniant ffurfiol i rannu'r gofrestru gyda'r Cadeirydd bob 6 mis gan nodi yn adroddiad blynyddol y pwyllgor bob hynny wedi digwydd a beth oedd y casgliadau.
- Y dylai rhan 5 o'r protocol gynnwys y gair 'cyflwyniadau'.

- Y dylid sefydlu rhaglen dreigl o archwilio cofrestrau'r cynghorau tref a chymuned yn flynyddol.
- Y dylai'r hyfforddiant a gynigir i glercod cynghorau tref a chymuned gynnwys yr angen i gofrestru rhoddion a lletygarwch.
- Y dylid gosod y ffurflen gofrestru rhoddion a lletygarwch ar y we.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Monitro yn ail-lunio'r protocol yn unol â barn y pwyllgor ac yn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu ym mis Mai.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.05pm.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **1 Gorffennaf 2013** |
| **TEITL :** | **Cais am oddefeb gan y Cynghorydd Mike Stevens** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Mae'r Cynghorydd Mike Stevens, Cyngor Tref Tywyn, wedi cyflwyno cais am oddefeb i gymryd rhan mewn trafodaeth, yn y Cyngor Tref, ynglŷn â Siambr Twristiaeth a Masnach Tywyn. Mae'r cyngor yn rhoi grant yn flynyddol i'r Siambr, ond eleni mae am drafod y mater ymhellach cyn gwneud penderfyniad oherwydd datblygiadau o fewn y Siambr yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

2. Mae'r Cynghorydd wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd mae ef yw Cadeirydd y Siambr. Mae'n awyddus i fynychu'r cyfarfod er mwyn darparu gwybodaeth ac ateb cwestiynau'r cyngor tref. Mae wedi gofyn am yr hawl i siarad a phleidleisio. Bydd gwybodaeth gefndir bellach ar gael erbyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau a chyflwynir ef i'r aelodau bryd hynny.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol. Mae'r cynghorydd wedi nodi ei fod yn gofyn am y goddefeb o dan baragraff (f), sy'n darparu

*(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw;"*

Mae hefyd wedi nodi paragraff (d) - *"os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd"*

4. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad (Medi 2012) yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau (tud.36):

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

**Argymhelliad**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd Mike Stevens am oddefeb.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **1 Gorffennaf 2013** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2012/2013** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn cyhoeddi adroddiad blynyddol fel modd o gyflwyno'r Pwyllgor a'i waith i aelodau Cyngor Gwynedd a'r cynghorau cymuned a thref, ac i godi ei broffil yn gyffredinol.

2. Atodaf er sylw'r Pwyllgor ddrafft Adroddiad Blynyddol, ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2013.

**Argymhelliad**

3. Gwahoddir sylwadau a chymeradwyaeth y Pwyllgor.

# PWYLLGOR SAFONAU
# CYNGOR GWYNEDD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# 2012/2013

Draft

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

[i ddilyn]

**Gwilym Ellis Evans**
**Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd**

Drafft

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

[i ddilyn]

Dilys A Philips
SwyddogMonitro
Cyngor Gwynedd

Drafft

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau cynghorau tref/cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

## Aelodau Annibynnol

**Gwilym Ellis Evans**



Mae Gwilym yn byw yn Nolgellau lle y bu'n rhedeg busnes modurdy am bron i 40 mlynedd. Mae wedi gwasanaethu ar sawl tribiwnlys, yn cynnwys Tribiwnlysoedd Diwydiannol ac Apeliadau Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n gwasanaethu ar Dribiwnlys Apêl Prisio Gogledd Cymru ar hyn o bryd. Mae hefyd yn Gadeirydd CAB Gwynedd a De Môn ac yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol CAB Meirionnydd. Mae hefyd yn aelod o Gwrp Lliwio Partneriaeth Economeg Gwynedd ac yn Ymddiriedolwr Age Concern Gwynedd a Môn.

**Samindre (Sam) W. Soysa**



Mae Sam yn byw yn Harlech ac yn gweithio fel Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yng Ngogledd Cymru. Mae wedi gweithio mewn nifer o uwch swyddi rheolaethol a busnes dros yr 20 mlynedd diwethaf, gan gynnwys saith mlynedd gyda Gweinyddiaeth Ynni Seland Newydd. Mae'n is-gadeirydd ac ymddiriedolwr/cyfarwyddwr C.A.B. Gwynedd a De Ynys Môn ac yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol C.A.B. Meirionnydd. Mae hefyd yn gwasanaethu fel aelod annibynnol ar Bwyllgorau Safonau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Draft

## Linda Byrne

**[manylion a llun i ddilyn]**

## Margaret E Jones

**[manylion a llun i ddilyn]**

## Einir Young

**[manylion a llun i ddilyn]**

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd David Clay**



Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 25 mlynedd ac wedi bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru. Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Eryl Jones-Williams**



Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd wedi lled-ymddeol ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008. Mae'n gynghorydd tref a chymuned ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu fel Maer a Chadeirydd. Mae'n cymryd rhan weithgar yn y maes hawliau anabledd ac yn is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal ag aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Chyngor Cymuned GIG Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Canolog Gwynedd, lle mae gallu tynnu ar ei brofiad fel cyn drwyddedai. Mae cyn-ddyfarnwr pêl-droed Cymru ei ddiddordebau yn cynnwys golff yn Harlech Brenhinol Dewi Sant a Dolgellau.

**Cynghorydd Charles Wyn Jones**

**[manylion a llun i ddilyn]**

**Cynghorydd Michael Sol Owen**

**[manylion a llun i ddilyn]**

Drafft

# GWAITH Y PWYLLGOR

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad. Mae'n gyfrifol am wneud hyn ymysg aelodau Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref y sir.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ystyried a phenderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Mae hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am ollyngiadau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.

Y llynedd ychwanegwyd Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd at gylch gorchwyl y Pwyllgor.

## Rhaglen Waith y Pwyllgor

Gellir gweld Rhaglen Waith y Pwyllgor fel Atodiad i'r adroddiad hwn.

## Aelodaeth

Mae naw aelod ar y Pwyllgor Safonau, sef

- 5 'Aelod Annibynnol'(h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol)
- 1 'Aelod Pwyllgor Cymunedol' sy'n aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd (ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd)
- 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

Gwelwyd newid sylweddol yn aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2012 penodwyd y Cyng. Eryl Jones Williams am ail dymor a phenodwyd y Cynghorywr sirol Charles Wyn Jones a Michael Sol Owen am y tro cyntaf. Yn dilyn dirwyn i ben dymhorau swydd dau aelod annibynnol ac ymddiswyddiad un arall, penodwyd Margaret Jones, Linda Byrne a'r Dr Einir Young i'r Pwyllgor.

## Goddefiadau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr

Drafft

hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor dri cais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma:

| Natur y buddiant | Penderfyniad y Pwyllgor |
|---|---|
| Roedd yr aelod yn denant i ymgesiydd am ganiatad cynllunio (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) | Caniatau (siarad yn unig - dim hawl pleidleisio bethbynnag) |
| Aelod o bwyllgor rheoli neuadd bentref – cyngor cymuned i drafod ariannu neuaddau pentref yr ardal. | Caniatau |
| Merch yr aelod yn brifathrawes dros dro ar ddwy ysgol gynradd yn ardal dwyrain Ysgol y Gader – roedd trafodaethau ar ad-drefnu addysg gynradd yn yr ardal honno. | Caniatau i'r aelod gymryd rhan mewn trafodaethau lleol a rhai anffurfiol ond goddefiad ddim yn ymestyn i gyfarfodydd ffurfiol o fewn y Cyngor. |

## Honiadau yn erbyn aelodau

Hysbsywyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad :

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| Defnyddio ei safle fel cynghorydd yn amhriodol | Peidio ymchwilio |
| Dwyn anfri ar ei swydd | Peidio parhau gyda'i ymchwiliad |
| Peidio datgan buddiant | Bod yr aelod wedi torri'r cod ymddygiad drwy fethu datgan buddiant ond nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach yn yr amgylchiadau. |
| Ymddygiad annerbyniol tuag at gyd-aelod | Dim tystiolaeth o dorri'r cod |
| Anfon e-bost at bapur newydd yn gwneud honiadau anghywir am bolisiau | Peidio ymchwilio |

Draft

| | |
|---|---|
| Ymosod yn eiriol ar aelod o'r cyhoedd ac wedi ceisio ei fychanu mewn man cyhoeddus | Gallai ymddygiad yr aelod dorri'r cod ond nid oedd o'r farn y byddai pwyllgor safonau yn rhoi cosb yn yr amgylchiadau. |
| Peidio datgan buddiant | Peidio ymchwilio |
| Peidio datgan buddiant | Peidio ymchwilio |

Cyfieiriodd yr Ombwdsmon un honiad at y Pwyllgor Safonau am benderfyniad:

| **Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad** | **Penderfyniad y Pwyllgor** |
|---|---|
| Gwneud honiadau di-sail am yr achwynydd ar ei flog. | Gwahardd y Cynghorydd rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd am gyfnod o dri mis |

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, ac hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan gynrychiolwyr o blith aelodau'r pwyllgor (fel arfer y Cadeirydd a/neu yr Is-gadeirydd) a swyddogion. Eleni bu'r Fforwm yn allweddol yn y broses o drefnu Cynhadledd Safonau Cymru 2013 a gynhaliwyd yn Llandudno ym mis Ebrill 2013.

## Protocol Rhoddion a Lletygarwch i Aelodau

Fel rhan o'i waith o hyrwyddo safonau ymddygiad uchel o fewn y Cyngor, edrychodd y Pwyllgor Safonau ar y protocol, gan gynnig rhai diwygiadau iddo. Derbyniwyd y diwygiadau hyn gan y Cyngor Llawn fabwysiadodd y Protocol diwygieidig fel rhan o gyfansoddiad y Cyngor.

## Ymgynghoriadau

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2013 ymatebodd y Pwyllgor i'r ymghyngoriad gan Lywodraeth Cymru ar Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru mewn perthynas a'r agweddau hynny oedd yn ymwneud a phwylgorau safonau. Ystyriodd ac ymatebodd hefyd i lythyr oddi wrth y Gwenidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ynglyn â Fframwaith Foesegol Llywodraeth Leol.

## Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad

Penderfynodd y Pwyllgor ar y materion canlynol:

- Rhoi blaenoriaeth i ddarparu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i gynghorwyr sir oedd heb fynychu'r hyfforddiant a gynigiwyd fel rhan o'r drefn gyflwyno yn dilyn etholiadau mis Mai 2012.
- Cynnig sesiwn adnewyddu yn flynyddol i'r holl gynghorwyr sir, gan edrych ar ffyrdd gwahanol o ddarparu'r hyfforddiant.
- Cynnig sesiynau penodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref a Chymuned gan fonitro sut mae'r hyfforddiant gydag Unllais Cymru yn symud yn ei flaen.
- Cynnig sesiwn wedi ei theilwrio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.
- Bod angen ystyried dulliau gwahanol a mwy arloesol o gyflwyno hyfforddiant yn gyffredinol.
- Gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gynnwys amod yn y cod bod rhaid i bob cynghorydd dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Draft

**Pwyntiau Cyswllt Defnyddiol**

- **Dilys Phillips, Swyddog Monitro / Siôn Huws, Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith**

  Cyngor Gwynedd, Stryd y Jel, Caernarfon, LL55 1SH,

  E-bost: SionH@gwynedd.gov.uk   Ffôn: (01286) 679168   Gwefan: www.gwynedd.gov.uk
- **Ombwdmson Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -** www.ombwdsmon-cymru.org.uk
- **Panel Dyfarnu Cymru -** www.paneldyfarnucymru.org.uk

**Atodiad**

**RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU**

**28 Ionawr, 2013**

- Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau
- Cofnodion Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Gogledd Cymru
- Adroddiad ar hyfforddiant
- Deddfwriaeth ar Hybu Democratiaeth Leol *(yn ddibynnol ar y cyfnod*
- *ymgynghori)*
- Cysylltiadau gyda chynghorau cymuned a thref

**8 Ebrill, 2013**

- Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau
- Cofnodion Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Gogledd Cymru
- Rhaglen Waith y flwyddyn i ddod
- Adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau

**Gorffennaf, 2013** (dyddiad i'w bennu)

- Adroddiadau ar honiadau yn erbyn aelodau
- Cofnodion Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Gogledd Cymru
- Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon
- Adborth o'r Gynhadledd Safonau

Cynnwys eitem benodol ar y rhaglen waith i drafod yr holl faes cyfryngau cymdeithasol a sut mae cynghorwyr yn gwneud defnydd ohonynt.

Bod modd i aelodau'r pwyllgor hwn fynychu unrhyw gyfarfodydd o'r Cyngor fel arsylwyr a'u bod yn derbyn linc ar gyfer pob rhaglen sy'n cael ei chyhoeddi.

Anfon rhestr o ddyddiadau a lleoliadau'r Pwyllgor Cynllunio i aelodau'r pwyllgor hwn fel y gallent fod yn bresennol pan fydd y pwyllgor yn cyfarfod yn eu hardal.

Draft

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **1, GORFFENNAF, 2013** |
| **TEITL** | **ADBORTH O'R GYNHADLEDD SAFONAU.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Cynhaliwyd seithfed Gynhadledd Safonau Cymru gyfan yn Llandudno ar y 19, Ebrill, 2013. Mynychodd 5 o'r Pwyllgor sef :
   Cynghorydd Michael Sol Owen
   Einir Young
   Margaret Jones
   Gwilym Evans
   Linda Byrne,

   ynghyd â 4 swyddog :
   Dilys Phillips,
   Iwan Evans
   Siôn Huws
   Rhun ap Gareth.

2. Daeth ychydig dros 100 o fynychwyr a derbyniwyd 80 ffurflen adborth. Mae dadansoddiad ohonynt i'w weld yn Atodiad '1'.

3. Cynhaliwyd pedwar gweithdy yn ystod y gynhadledd. Mae adborth o un ohonynt sef "Hyrwyddo Safonau yn Rhagweithiol" i'w gael yn Atodiad '2'.

4. Gofynnir i'r Pwyllgor :

   (a) Nodi'r adroddiad.

   (b) Gynnig unrhyw sylwadau ar amseriad a threfniadau cynadleddau i'r dyfodol.

**ATODIAD '1'**

# *Cynhadledd Safonau 2013 / Standards Conference 2013*

## Ffurflen adborth / *Feedback form*

| **Os gwelwch yn dda rhowch eich barn am y canlynol:** ***Please give your view on the following:*** | Ardderchog *Excellent* | Da *Good* | Boddhaol *Satisfactory* | Gwael *Poor* |
|---|---|---|---|---|
| **Trefniadau cyn y gynhadledd** ***Pre-conference arrangements*** | 50 | 21 | 6 | 2 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd y gynhadledd** ***The usefulness of the Conference*** | 49 | 28 | 2 | 0 |
| **Y cyfle i rwydweithio** ***Opportunity for networking*** | 42 | 30 | 5 | 1 |
| **Lleoliad/Lluniaeth** ***Location/Refreshments*** | 54 | 18 | 3 | 1 |
| **Trefniadau'r gynhadledd** ***The Conference arrangements*** | 55 | 19 | 0 | 1 |
| **Deunyddiau'r gynhadledd** **Conference materials** | 47 | 23 | 8 | 2 |
| **Sesiwn lawn 1 – Peter Tyndall** ***Plenary session 1 – Peter Tyndall*** | 38 | 34 | 3 | 0 |
| **Sesiwn lawn 2 – trefn datrys leol** ***Plenary session 2 – local resolution procedure*** | 38 | 30 | 0 | 0 |
| **Gweithdy 1A/2A: hyrwyddo safonau** ***Workshop 1A/2A: promoting standards*** | 31 | 17 | 1 | 0 |
| **Gweithdy 1B/2B: gwrandawiadau a chosbau** ***Workshop 1B/2B: hearings and sanctions*** | 19 | 18 | 6 | 1 |
| **Gweithdy 1C: buddiannau a gollyngiadau** ***Workshop1C: interests and dispensations*** | 12 | 9 | 3 | 0 |
| **Gweithdy 2C: cyngorau cymuned ac un bwrpas** **Workshop 2C:** ***communities and single purpose*** | 15 | 8 | 2 | 1 |

**Sylwadau pellach / Further comments.**

| | |
|---|---|
| 1. | I think we did a good job here in the North. Good balance of presentations and workshops. |
| 2. | Very worthwhile exercise. Informative, lively, information sharing. |
| 3. | Very well organised in all respects. |
| 4. | Very well organised and useful. Well chosen topics. Good venue and good facilities. |
| 5. | Very enjoyable and good Conference. |
| 6. | Should have started at 9 or 9:30. Most stayed overnight or were within 1 hours drive<br>Standards documents too large<br>Perhaps One Voice Wales representative should be invited? |
| 7. | I'd suggest that the Conference should have started earlier in the day. Those that travelled from South Wales probably all stayed the night before.<br>Conference should have finished therefore at 15:30.<br>Conference was excellent. |
| 8. | Diddorol dros ben. Dim digon o drafod/gwaith grŵp yn Gweithdy 1C. Trefniadau da / dwyieithog. *Very interesting. Not enough discussion/group work in Workshop 1C. Good organisation/bilingual.* |

| | |
|---|---|
| 9. | Would have liked longer to discuss Workshop 1A/2A – Promoting Standards. |
| 10. | Would have preferred all the conference materials to be on the web or e-mail. The contents were very heavy to transport and a waste of paper. Could have condensed the day a little to perhaps start at 10:00 to enable us to get home earlier. Would be easier on a midweek day.<br>Good use of bilingual communications. |
| 11. | Found documentation awkward to negotiate. |
| 12. | Generally good – but not as good over the whole range as the last 2/3 annual events have been.<br>Venue (although at the opposite end of Wales for me) was very good. |
| 13. | Nid oedd y brif neuadd yn lleoliad delfrydol ar gyfer y gweithdai (rhy fawr ac amhersonol!)<br>At y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r dogfennau i aelodau'r gynhadledd gynnwys rhestr o'r holl aelodau, gan nodi pa Gyngor oeddent yn ei gynrychioli. *The main hall was not ideal for the workshop (to big and impersonal). In the future, it would be useful if the documents contained the names of all the delegates attending, together with the Council they were representing.* |
| 14. | Cynhadledd wedi ei threfnu'n dda gyda chynnwys ardderchog. Diolch! *The Conference was well organised with excellent content. Thank you!* |
| 15. | *Workshop 1C* – We didn't have the opportunity to work in small groups although tables were arranged to provide just the opportunity.<br>I would have welcomed more workshop sessions, shorter lunch break if necessary.<br>I would have been happy to forego the cost of having conference documents in English and Welsh. |
| 16. | Page numbers needed on brochure.<br>Morning group sessions not enough "Group Work". |
| 17. | Balance of Workshops/Plenary – just right. |
| 18. | Location – excellent – easy to find and very pleasant vicinity, good facilities.<br>Refreshments – very good.<br>Food – poor – satisfactory – very heavily bread orientated, good fruit sticks option. |
| 19. | Members should have been asked prior to arriving if they wanted material in English or Welsh as of this document is waste!<br>1B – too rushed – needed 2 hour slot.<br>2C – Single Purpose Authorities was poor<br>- Registration on interest was good. |
| 20. | Venue could have been warmer and it would have been nice to have had some form of soft drink save for water. Otherwise – Excellent! |
| 21. | As a new member of the Standards Committee I have found the conference to be extremely helpful. |
| 22. | Da Iawn. *Very good.* |
| 23. | Excellent conference pack, well organised and relevant.<br>2C – This took the form of a presentation with questions rather than a workshop. |
| 24. | It is encouraging to see the degree to which all participants engaged with the issues, are willing to share and learn from good practice. |
| 25. | A useful and informative day. Thank you. |
| 26. | The need for mandatory training per town and community councils on the code is foremost. We have to sign to state we have read this when elected but not all understand. Well Done. |
| 27. | Prior commitment prevented attendance to morning session. |
| 28. | Excellent venue and welcome from staff-organisers. I feel that once again Community Councils were disregarded in view of what they do and achieve re training in Standards. |
| 29. | Excellent – particularly hearings and sanctions. |
| 30. | Excellent conference. Acoustic conditions in workshops not good. Microphones needed. Food excellent. |
| 31. | The workshop in interests wasn't really a workshop with participations. |
| 32. | Conference materials overblown. Shiny paper not good. Papers very difficult to find ones way around. Liked idea of allocating people to tables for workshop sessions. |
| 33. | Really good conference, well done to everyone involved in organising the day. |
| 34. | At my first Standards Conference I found it very interesting and enjoyed hearing from others. The setting of the venue was much enjoyed! It was good to be able to chat to those with so much more experience. |
| 35. | Really useful – lots to think about. Look forward to receiving conference notes. |

| | |
|---|---|
| 36. | No further comments required. An informative and enjoyable conference. |
| 37. | Wedi mwynhau'r profiad ac wedi dysgu llawer. Cynhadledd wedi ei threfnu yn dda. Diolch am gael bod yna. *Enjoyed the experience and have learnt a lot. Conference was well organised. Pleased that I attended.* |
| 38. | A very good day. |
| 39. | Very enjoyable and good to meet other members. More time for Workshops would be good. |
| 40. | I spent the first few minutes of each session trying to find the slides in the conference pack. Rather confusing – please could it be improved, at least with page numbering. |
| 41. | Gormod o ddeunydd yn sleidiau Gweithdy B. Fformat Gweithdy A yn llawer gwell a mwy rhyngweithiol. *Too much material in the slides for Workshop B. The format of Workshop A was a lot better and more interactive.* |
| 42. | Llongyfarchiadau am y trefniadau ac ar lwyddiant yr achlysur. *Congratulations on the organisation and the success of the event.* |
| 43. | The standard of arrangements was well above expectation!! |
| 44. | Very well organised and relevant conference. |
| 45. | Really useful, especially the opportunity to discuss with members of other Standards Committees. Raised a lot of new and interesting issues concerning the role of Standards Committees. |
| 46. | Facilities – Main conference room was dark, black walls (!). Poor lighting. The room was very cold. Doors were left open and I asked several times if door could be closed. The women present sat in their coats.<br>Thoroughly enjoyed and learned a great deal from Workshop Session 1A. Content was thin and I felt a wasted opportunity.<br>Pack not numbered, difficult to follow.<br>I do not eat diary products not asked dietary requirements before attending. |
| 47. | Diwrnod buddiol – yn bennaf i glywed beth sydd yn mynd ymlaen mewn Awdurdodau eraill. *Profitable day – mainly to hear what is going on within other Authorities.* |
| 48 | Buddiol iawn. *Very profitable.* |

ATODIAD '2'

# CYNHADLEDD SAFONAU 2013
# VENUE CYMRU, LLANDUDNO,
# 19, EBRILL, 2013.

## ADBORTH O'R SESIYNAU GWEITHDY AR HYRWYDDO SAFONAU YN RHAGWEITHIOL.

### CYFLWYNIAD.

Yn ystod y Gynhadledd cafwyd dwy sesiwn weithdy ar gyflwyno safonau yn rhagweithiol. Yr hwyluswyr oedd Dilys Phillips, Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd a Stephen Phipps, Pennaeth Tîm Moeseg a Rheoleiddio, Adran Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru.

Nodwyd mai dyletswyddau statudol Pwyllgorau Safonau ydi hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad, cynorthwyo aelodau etholedig gyda materion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad, monitro gweithrediad y Côd o fewn yr awdurdod a chynghori a hyfforddi aelodau etholedig ar faterion ymddygiad. Gofynnwyd i fynychwyr y gweithdai wneud gwaith grŵp ar sut y gallai Pwyllgorau Safonau fod yn rhagweithiol wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn. Dyma'r syniadau a gyflwynwyd :-

### GWEITHGAREDDAU CODI PROFFIL.

1. Cyfarfodydd.

   Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda budd-ddeiliaid perthnasol i hyrwyddo gwaith y Pwyllgor Safonau a/neu gynnal trafodaethau am faterion safonau. Gallai budd-ddeiliaid gynnwys :
   - Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol o fewn yr awdurdod;
   - Prif Weithredwr;
   - Aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol;
   - Penaethiaid Adrannau;
   - Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor;
   - Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
   - Clercod Cynghorau Cymuned.

2. Ymweliadau.

   Cynnal ymweliadau hefo cyrff neu gyfarfodydd perthnasol megis:
   - Cynghorau Cymuned;
   - Pwyllgorau'r Cyngor;
   - Awdurdod Llawn.

   Gwahodd y Pwyllgor Safonau neu rhai o aelodau'r Pwyllgor Safonau i ddigwyddiadau megis cyfarfodydd blynyddol cynghorau cymuned neu ddiwrnod anwytho aelodau newydd.

3. Cyhoeddusrwydd.

Cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i waith y Pwyllgor Safonau megis:

- Adroddiad blynyddol i'r Cyngor;
- Rhyddhau erthyglau i'r wasg o bryd i'w gilydd;
- Cynnwys erthygl yn y papur newyddion sydd gan y Cyngor;
- Cynhyrchu newyddlen achlysurol;
- Anfon diweddariad i bob aelod o'r Cyngor;
- Gwahodd y wasg i gyfarfodydd y Pwyllgor.

**GWEITHGAREDDAU YN YMWNEUD A HYFFORDDIANT.**

4. Cynnwys Hyfforddiant

Llunio polisïau hyfforddiant aelodau er mwyn sicrhau cynnwys safonol. Gall polisïau o'r fath ymwneud â'r canlynol :

- Cael cymeradwyaeth y Cyngor i wneud hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn orfodol;
- Cyflwyno hyfforddiant ar bynciau sydd yn peri pryder o fewn yr awdurdod, e.e. y defnydd o gyfryngau cymdeithasol neu ymddygiad mewn cyfarfodydd cyhoeddus;
- Cyd gynhyrchu hyfforddiant ar sail ranbarthol;
- Defnyddio deunydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru neu Unllais Cymru fel sail i'r hyfforddiant.

5. Cyflwyno.

Defnyddio gwahanol ddulliau o gyflwyno hyfforddiant gan gynnwys rhai o'r canlynol:

- Aelodau'r Pwyllgor Safonau i fynd i ddigwyddiadau hyfforddi i gyfrannu yn y cyflwyniadau;
- Cyflwyno hyfforddiant yn seiliedig ar y we;
- Aelodau Pwyllgorau Safonau i gynnal ymweliadau hefo cynghorau cymuned;
- Defnyddio deunyddiau hawdd i'w deall megis talfyriad o'r Côd "canllaw cyflym", a.y.y.b.

6. Monitro.

Cynnal digwyddiadau i fonitro effaith hyfforddiant drwy:

- Ddadansoddi ffurflenni adborth;
- Derbyn adroddiadau rheolaidd i'r pwyllgor ar faterion ymddygiad.

## GWEITHGAREDDAU HYRWYDDO YMDDYGIAD DA.

7. Datrys Anghydfod.

Gweithredu yn lleol i ddatrys anghydfod ynglŷn ag ymddygiad trwy :

- Gynhyrchu Protocol Lleol (mae dau fodel yn cael eu defnyddio yng Nghymru, un yn cynnwys y Pwyllgor Safonau a'r llall yn cynnwys arweinyddion grwpiau gwleidyddol);
- Cyflafareddu rhwng aelodau;
- Cymorthfeydd safonau.

8. Arsylwi.

Gwahodd aelodau etholedig i arsylwi ar gyfarfodydd y Pwyllgorau Safonau.

## GWEITHGAREDDAU MONITRO.

9. Cwynion.

Monitro cwynion neu honiadau yn erbyn aelodau a chynhyrchu adroddiadau rheolaidd i'r pwyllgor.

10. Presenoldeb.

Monitro presenoldeb aelodau mewn gwahanol gyfarfodydd a chynhyrchu adroddiadau rheolaidd:

- Presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi;
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor;
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd cyrff allanol.

11. Cofrestrau.

Monitro y cofrestru sydd yn digwydd gan aelodau ar y canlynol :

- Cofrestr rhoddion a lletygarwch;
- Cofrestr buddiannau (a phenderfynu a ddylid eu cyhoeddi neu beidio).

## GWEITHGAREDDAU ADOLYGU

12. Gweithdrefnau'r Pwyllgor Safonau.

Adolygu neu lunio gwahanol brotocolau neu weithdrefnau yn ymwneud â'r ffordd y mae'r pwyllgor ei hun yn gweithredu megis;

- Protocol datrys anghydfod;
- Trefn gwrandawiadau gerbron y pwyllgor;
- Ceisiadau am oddefebau;
- Hunan asesiad o waith y pwyllgor.

13. Polisïau'r Awdurdod.

Adolygu polisïau sydd gan yr awdurdod sydd yn ymwneud â'r maes safonau gan gynnwys y canlynol:

- Polisi rhoddion a lletygarwch;
- Polisi gwefannau cymdeithasol;
- Polisi gwe-ddarlledu;
- Polisi fideo gynadledda;
- Polisi defnydd technoleg gwybodaeth;
- Polisi gohebiaeth aelodau;
- Polisi canu'r gloch ("whistle blowing");
- Polisi defnydd o'r wasg;
- Ymrwymiad lleol i safon ymddygiad.

**GWEITHGAREDDAU DATBLYGU Y PWYLLGOR.**

14. Gwerthusiadau

Cynnal gwerthusiad neu arfarniad o waith ac anghenion hyfforddiant aelodau unigol y pwyllgor.

15. Gweithgaredd Rhanbarthol.

Sefydlu neu gymryd rhan mewn gwahanol ddigwyddiadau i rannu ymarfer da megis :

- Fforwm Rhanbarthol Pwyllgorau Safonau;
- Cynadleddau Safonau;
- Digwyddiadau hyfforddi ar y cyd gyda phwyllgorau safonau eraill.

16. Adroddiadau.

Ystyried a dysgu oddi wrth adroddiadau sydd wedi cael eu cyhoeddi megis:

- Adroddiadau blynyddol yr Ombwdsmon;
- Llyfr achosion yr Ombwdsmon;
- Adroddiadau neu benderfyniadau gan Bwyllgorau Safonau eraill.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **1, GORFFENNAF, 2013** |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Penderfynodd y Pwyllgor ar 2, Gorffennaf, 2012 y byddai'n cynhyrchu blaen raglen waith yn flynyddol. Cymeradwywyd y rhaglen gyntaf am 2012/13 yn y cyfarfod dilynol.

2. Cyflwynir yma raglen waith ddrafft am 2013/14 a gofynnir am gymeradwyaeth y pwyllgor iddi. O'i chymeradwyo bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2013/14

| DYDDIAD | PWNC | PWRPAS. |
|---|---|---|
| 1, Gorffennaf, 2013 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau | Cymeradwyo adroddiad blynyddol ar waith y pwyllgor am y flwyddyn a fu. |
| | Adborth o'r Gynhadledd Safonau. | Derbyn adroddiad adborth a chyflwyno unrhyw sylwadau. |
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor. | Cymeradwyo'r rhaglen waith am 2013/14. |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad am honiadau a wnaed ers y cyfarfod diwethaf. |
| | Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | Derbyn, er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Fforwm. |
| 30, Medi, 2013 | Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon. | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| | Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru. | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad adborth a chyflwyno unrhyw sylwadau. |
| | Cyfarfod Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol | Cynnal trafodaeth hefo'r arweinyddion neu eu cynrychiolwyr ar waith y pwyllgor a materion safonau. |
| | Protocol Cyfryngau Cymdeithasol. | Ystyried protocol drafft ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau etholedig, er mwyn ei argymell i'r Cyngor i'w fabwysiadu. |
| | Hyfforddiant. | Derbyn adroddiad ar hyfforddiant sydd wedi ei gyflwyno ar y Côd Ymddygiad ac ar drefniadau hyfforddi am y flwyddyn i ddod. Ystyried hyfforddiant ar gyfer aelodau'r pwyllgor. |

| **DYDDIAD** | **PWNC** | **PWRPAS.** |
|---|---|---|
| 27, Ionawr, 2014. | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch. | Derbyn adroddiad blynyddol ar gofrestr Rhoddion a Lletygarwch. |
| | Cofrestr buddiannau aelodau etholedig. | Derbyn adroddiad blynyddol ar y gofrestr buddiannau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. |
| | Trefn datrys anghydfod a Safon Gwynedd. | Adolygu'r drefn a derbyn adroddiad ar ei gweithrediad yn ystod y flwyddyn. |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad adborth a chyflwyno unrhyw sylwadau. |
| | Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru. | Derbyn, er gwybodaeth gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Fforwm. |
| 7, Ebrill, 2014 | Cyfarfod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. | Trafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin i'r ddau bwyllgor. |
| | Trefn ceisiadau am oddefebau. | Adolygu'r drefn o ymdrin â cheisiadau am oddefebau; derbyn adroddiad adborth o'r ceisiadau a wnaed hyd yma. |
| | Hunan asesiad o waith y pwyllgor. | Cynnal hunan asesiad o waith y pwyllgor hyd yma, a chynnig unrhyw newidiadau. |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad adborth a chyflwyno unrhyw sylwadau. |
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor. | Cymeradwyo'r rhaglen waith am 2014/15. |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **1 Gorffennaf 2013** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau’r Pwyllgor o’r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon.

## 2. Cwynion

### 2.1 Cyfeirnod Ombwdsmon 201203449 & 201203493

| |
|---|
| **Cwyn** |
| Bod cynghorydd sir wedi defnyddio ei dudalen Facebook i geisio sylwadau negyddol gan y cyhoedd ynglŷn ag ysgol benodol a bod rhai o’r sylwadau hynny yn sarhaus a di-sail. |
| **Penderfyniad** |
| Peidio parhau â’r ymchwiliad. |
| **Rhesymau** |
| Roedd y Swyddog Monitro wedi ymyrryd yn y mater yn brydlon ac roedd y cynghorydd wedi dilyn cyngor hwnnw. Roedd wedi dileu'r sylwadau mwyaf sarhaus ac wedi rhybuddio cyfranwyr eraill i beidio enwi pobl na defnyddio iaith anweddus. Nid y cynghorydd ei hun oedd wedi gosod y deunydd sarhaus ar y dudalen nag enwi’r unigolyn neu’r ysgol. Serch hynny derbyniai’r Ombwdsmon mai cyfrifoldeb yr aelod oedd cynnwys y dudalen. Nid oedd yr aelod wedi torri’r cod drwy ddweud yn gyhoeddus bod cwyn yn ei erbyn. Nid oedd angen ystyried y mater ymhellach. Roedd y Swyddog Monitro wedi delio a’r gŵyn yn ddigonol. Serch hynny tynnodd sylw’r cynghorydd at ei bryder ynglŷn â’r ffordd roedd wedi dewis cyfarch y mater - roedd ffyrdd mwy addas i wneud hynny. |

**2.2 Cyfeirnod Ombwdsmon 2665/201204709**

| |
|---|
| **Cwyn** |
| Nad oedd cynghorydd tref wedi datgan buddiant mewn llythyr oedd ar raglen cyfarfod o'r cyngor tref gan y gallai fod yn ymwneud a'i safle ar gorff twristiaeth a masnach leol. |
| **Penderfyniad** |
| Dim ymchwiliad. |
| **Rhesymau** |
| Gan mai'r hyn a drafodwyd oedd a ddylid darllen cynnwys y llythyr yn gyhoeddus ai peidio (yn hytrach na'r cynnwys ei hun) nid oedd ganddo fwy o fuddiant yn y mater nag unrhyw gynghorydd arall. |

**2.3 Cyfeirnod Ombwdsmon 201204544**

| |
|---|
| **Cwyn** |
| Bod cynghorydd sir wedi cyhoeddi, ar ei dudalen Facebook, bod eiddo masnachol wedi cael sgôr o ddim o dan y cynllun hylendid bwyd. Erbyn hynny rodd y problemau wedi eu datrys ac fe wnaeth hyn niwed i fusnes yr achwynydd. |
| **Penderfyniad** |
| Dim ymchwiliad. |
| **Rhesymau** |
| Roedd y sgôr eisoes yn wybodaeth gyhoeddus. Rhoddodd yr wybodaeth ar y dudalen gan ei fod yn poeni fod yr eiddo yn darparu bwyd i blant. Nid oedd yr aelod wedi dweud anwiredd ac roedd wedi cynnig ei gymorth i geisio datrys y sefyllfa. Pan roddwyd yr wybodaeth ar y dudalen, roedd y sgôr gwreiddiol yn parhau i sefyll, er bod camau wedi eu cymryd i wella'r sefyllfa. Roedd gan yr achwynydd hawl i ymateb drwy Facebook ac roedd yn fater i'r cyhoedd ystyried yr holl wybodaeth oedd ar gael iddynt cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â mynychu'r eiddo. |

**2.4 Cyfeirnod Ombwdsmon 201300346**

| **Cwyn** |
|---|
| Bod cynghorydd sir wedi ffilmio a recordio sgwrs yn gyfrinachol a'i roi ar ei dudalen Facebook. |
| **Penderfyniad** |
| Ymchwiliad yn parhau |

**2.5 Cyfeirnod Ombwdsmon 3982/201301430**

| **Cwyn** |
|---|
| Bod cynghorydd sir yn caniatáu sylwadau sarhaus ac enllibus ar ei dudalen Facebook. |
| **Penderfyniad** |
| Ystyried os yw am ymchwilio. |

**2.6 Cyfeirnod Ombwdsmon 201301307**

| **Cwyn** |
|---|
| Bod cynghorydd sir wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol tuag at yr achwynydd |
| **Penderfyniad** |
| Ystyried os yw am ymchwilio. |

## 3. Achos fu gerbron y Pwyllgor Safonau

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad mewn cysylltiad â'r gŵyn yn erbyn y Cyng. A.M. Jones, Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2012. Mae'r Cynghorydd wedi apelio i Banel Dyfarnu Cymru a disgwylir dyddiad ar gyfer y gwrandawiad.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 20 Mai 2013, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Gwilym Ellis Evans | Is-gaderiydd, yn y Gadair (Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Gwynedd) |
| | Trevor Coxon | Swyddog Monitro - Wrecsam |
| | Sion Huws | Swyddog Priodoldeb - Gwynedd |
| | Delyth E. Jones | Swyddog Monitro - Conwy |
| | Islwyn Jones | Is-gadeirydd – Pwyllgor Safonau Ynys Môn |
| | Patricia Jones | Is-gadeirydd – Pwyllgor Safonau Sir y Fflint |
| | Peter Rowland | Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri |
| | Michael B. Wilson | Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Ynys Môn |
| **Yn bresennol:** | Caren Lewis | Ynys Môn |
| **Swyddogion:** | Sian Harland | Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor |
| | Ifan Prys | Cyfieithydd |

1. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cynghorydd Gwilym Ellis Evans (Gwynedd) yn cael ei enwebu fel Is-Gadeirydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD -**
**Penodi'r Cynghorydd Gwilym Ellis Evans (Gwynedd) fel Is-Gadeirydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.**

*(Roedd angen penodi Is-Gadeirydd gan nad oedd yr Is-Gadeirydd blaenorol bellach yn Aelod o Bwyllgorau Safonau Gogledd Cymru)*

2. **YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Lynn Ball (Ynys Môn), Sioned Wyn Davies (Wrecsam), Rob Dawson (Wrecsam), Jane Eyton-Jones (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru), Lisa Jones (Sir Ddinbych), Robyn Jones (Ynys Môn), Ceri Nash (Wrecsam), Gareth Owens (Sir y Fflint), Dilys Ann Phillips (Gwynedd), Howie Roberts (Conwy), Parchedig Wayne Roberts (Sir Ddinbych), Ceri Williams (Conwy) a Gary Williams (Sir Ddinbych).

3. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd 7 Ionawr 2013 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD -**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd 7 Ionawr 2013 fel cofnod cywir.**

4. **CYNHADLEDD SAFONAU 2013 - ADBORTH**

Ystyriodd yr Aelodau'r adborth o Gynhadledd Safonau 2013 a gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Cafodd y digwyddiad ei drefnu'n dda ac roedd y bwyd yn dda
- Roedd rhywbeth at ddant pawb yn ystod y dydd
- Nodwyd nad oedd y brif neuadd yn lleoliad delfrydol, ond nid oedd yr ystafell lai ar gael ar y diwrnod hwnnw
- Er bod y deunydd darllen yn wych, byddai wedi hwyluso pethau pe bai mynegai yn y dogfennau gyda rhifau tudalen
- Awgrymwyd y gellid postio'r dogfennau ar eu gwefan gyda'r ddolen gyswllt at y safle a anfonwyd ar e-bost at y rhai a oedd yn bresennol
- Gellid bod wedi rhoi mwy o amser i'r gweithdai rhyngweithiol
- Byddai'r Gynhadledd Safonau nesaf yn cael ei threfnu gan Awdurdod Lleol arall
- Byddai pa mor aml y cynhelir Cynhadledd Safonau arall yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Cyfreithwyr Awdurdod Lleol

Cytunodd Aelodau y dylid llongyfarch cydlynwyr Cynhadledd Safonau 2013 ar drefnu digwyddiad mor llwyddiannus.

**PENDERFYNWYD -**

**Y dylid llongyfarch cydlynwyr Cynhadledd Safonau 2013 ar drefnu digwyddiad mor llwyddiannus.**

5. **UNRHYW EITEM ARALL**

<u>Dyfodol y Fforwm</u>

Rhoddodd Swyddog Monitro (Conwy) wybod bod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng Swyddogion Monitro Gogledd Cymru ar ddyfodol y Fforwm.

Gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Gallai pob cyfarfod gael rhaglen fach wedi'i dilyn gan Sesiwn Hyfforddi
- Gallai siaradwyr o Swyddfa'r Ombwdsmon, Panel Dyfarnu Cymru a Llywodraeth Cymru annerch y Fforwm ynglŷn â'u gwaith
- Byddai pa mor aml y ceir cyfarfodydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm
- Gallai'r cyfarfodydd gylchdroi rhwng Awdurdodau Lleol

- Dim ond Swyddog Monitro'r Awdurdod Lleol sy'n cynnal fyddai'n bresennol i gynnig cyngor a hwyluso'r Sesiwn Hyfforddi
- Swyddogion Monitro fyddai'n penderfynu ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer y Fforwm
- Byddai Conwy dal yn gyfrifol am drefnu'r Fforwm a chynhyrchu'r rhaglenni, gyda'r Awdurdod Lleol sy'n cynnal yn darparu Swyddog i gymryd cofnodion
- Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn hydref 2013

<u>Indemniadau ar gyfer Aelodau a Chamau Datrys Lleol</u>

Rhoddodd Swyddog Monitro (Conwy) wybod y byddai camau Datrys Lleol ar gyfer Protocol Cwynion gan Aelod am Aelod arall yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o Gyngor Conwy 4 Gorffennaf 2013. Fodd bynnag, yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor 16 Mai 2013, cytunwyd i osod yr indemniad ar gyfer Cynghorwyr yn £20,000.

Nid oedd Wrecsam wedi llunio Protocol Datrys Lleol eto, gan bod y Swyddog Monitro eisiau sicrhau y byddai'r protocol yn gadarn. Byddai'r Protocol yn cael ei gyflwyno i Gyngor Wrecsam ym Medi 2013. Byddai indemniadau ar gyfer Cynghorwyr yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol agos.

Roedd Ynys Môn wedi mabwysiadu protocol Datrys Lleol 3 blynedd yn flaenorol, a gafodd ei ddefnyddio unwaith yn y 3 blynedd hynny. Wrth adolygu'r protocol, gwelid ei fod yn feichus ac felly cynigiwyd i symleiddio'r broses fel a ganlyn:-

- Roedd gan yr achwynydd 7 diwrnod i roi gwybod am gŵyn i'r Swyddog Monitro
- Mae'r Swyddog Monitro yna'n anfon y gŵyn at y Cynghorydd, a wnaethpwyd cwyn yn ei gylch
- Mae gan y Cynghorydd 7 diwrnod wedyn i ymateb i'r gŵyn
- Yna gwahoddir y Cynghorydd i gyflwyno eu hachos i ddau Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau
- Mae'r Cynghorydd yn cael dod â thystion a chynrychiolydd

Gwnaethpwyd yr ymatebion canlynol i ymholiadau'n ymwneud â phrotocol:-

- Byddai'r ddau Aelod Annibynnol yn cael eu defnyddio yn eu tro
- Ni fyddai'r ddau Aelod Annibynnol a gyfranogai yn y Broses Ddatrys Leol wreiddiol yn cyfranogi mewn unrhyw Wrandawiadau Safonau dilynol
- Amcan y Protocol Datrys Lleol fyddai hyrwyddo camau cyfryngu a datrys, er mwyn adeiladu awyrgylch lle byddai Cynghorwyr yn fwy tebygol o gydweithio
- Gallai Swyddogion hefyd ddefnyddio'r Protocol Datrys Lleol, ond ni fyddai hyn yn tanseilio eu gallu i roi cwyn i'r Ombwdsmon

- Os oedd yr Aelodau Annibynnol yn ystyried bod achos o dorri Cod Ymddygiad, gallent argymell i’r Arweinwyr Grŵp bod y Cynghorydd y gwnaethpwyd cwyn amdano yn ymddiheuro i'r achwynydd neu eu bod yn cael eu tynnu oddi ar y Pwyllgor

Cafwyd trafodaeth wedyn ynghylch a ellid defnyddio Protocol Datrys Lleol i ddelio â chwynion yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned. Rhoddwyd gwybod i Aelodau nad rôl y Swyddogion Monitro oedd cael eu cynnwys mewn cwynion rhwng Cynghorwyr Tref a Chymuned; rôl y Clercod Tref a Chymuned oedd hyn. Fodd bynnag, rhoddodd Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn wybod ei fod wedi bod mewn cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned yn ei swyddogaeth fel Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau, i geisio atal y problemau rhag mynd yn waeth.

<u>Adborth Swyddog Monitro</u>

Awgrymwyd y byddai Swyddog Monitro'r Awdurdod Lleol sy’n cynnal yn rhoi adborth ar lafar ym mhob cyfarfod ynglŷn ag unrhyw faterion safonau neu foesegol a oedd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Fforwm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm)

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **1 Gorffennaf 2013** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2012/13** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er Gwybodaeth** |

## Cefndir

1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2012 – 2013.

2. Mae copi o’r rhannau hynny o’r adroddiad sy’n berthnasol i gwynion cod ymddygiad wedi ei gynnwys fel **Atodiad** i’r adroddiad hwn. Gellir gweld copi llawn o’r adroddiad ar wefan yr Ombwdsmon (www.ombudsman-wales.org.uk)

## Argymhelliad

3. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r adroddiad.

# Adroddiad Blynyddol 2012/13

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

A osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru
o dan baragraff 14 o Atodlen 1
i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

# 1. Cyflwyniad



Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn, y pumed ers i mi ymgymryd â swydd yr Ombwdsmon. Ei thema allweddol yw 'Unioni Pethau, Ysgogi Gwelliant', sef yr un thema a geir yn fy nghynllun strategol tair blynedd newydd sydd ar waith ers dechrau 2012/13. Fel Ombwdsmon, rwyf yn gweld dau brif reswm dros fodolaeth y swydd: unioni pethau i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus pan gaf fod rhywbeth wedi mynd o'i le, ac ysgogi gwelliant wedyn yn y ffordd y mae'r gwasanaethau cyhoeddus hynny'n cael eu cyflenwi drwy ddysgu gwersi o'r cwynion yr wyf yn eu hystyried. Rwyf hefyd yn manteisio ar y cyfle i drafod isod rhai materion cyffredinol sydd wedi codi yng nghyswllt rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y byddwn ni am ddelio â nhw yn y flwyddyn sydd i ddod.

## Cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gan sefydliadau'r sector preifat

Yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus lle y mae'r rhaniad rhwng cyflenwi gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn mynd yn llai pendant, mae'n bwysig sicrhau na fydd hawl pobl i gael iawn yn cael ei gwrthod yn anfwriadol. Felly rwyf wedi croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod hynny drwy gynnwys darpariaethau ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rwyf hefyd yn croesawu'r cynigion i ehangu awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y gallaf ystyried cwynion gan bobl sydd, er enghraifft, yn talu am eu gofal cymdeithasol eu hunain mewn cartrefi gofal preifat yn ogystal â'r bobl hynny sy'n derbyn gofal sydd wedi'i ariannu gan y wladwriaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi siarad mewn sawl man, gan gynnwys gwledydd tramor, ynghylch sicrhau bod hawl gan bobl i gael iawn yng nghyswllt gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu cyflenwi gan sefydliadau'r sector preifat. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu nifer o erthyglau am y mater hwn. Mae angen mwy o ystyriaeth i hyn mewn perthynas â'r sefyllfa yng Nghymru. Yn Lloegr, er enghraifft, ystyrir cynnwys gofal iechyd preifat yn awdurdodaeth Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y dylai'r trethdalwr dalu am gost y trefniadau i wneud iawn ar gyfer cwynion am y sector preifat. Un ffordd bosibl o ddelio â hyn yw codi ardoll, yn yr un modd â rhai o gynlluniau ombwdsmon y sector preifat, lle y mae'r holl gyrff o fewn yr awdurdodaeth yn cyfrannu at y gost o'u rhedeg, a hynny wedi'i seilio'n aml ar faint y corff dan sylw. Yr ail opsiwn yw talu ar sail nifer y cwynion. Mae hyn yn cynnwys elfen o egwyddor "y llygrwr sy'n talu", a chredir ei fod yn cymell cyrff o fewn yr awdurdodaeth i ddelio â chwynion yn well yn fewnol er mwyn osgoi costau sydd ynglwm â chwynion yn mynd at yr Ombwdsmon. Mae rhai cynlluniau ombwdsmon yn cynnwys elfen o'r ddau drefniant ariannu. Gall problemau mawr godi o ran cynllunio'r gweithlu mewn cynlluniau sy'n dibynnu'n helaeth ar dâl fesul cŵyn gan nad oes modd rhag-weld y ffrydiau incwm, felly ni fyddwn yn awyddus i ddadlau o blaid dull gweithredu o'r fath. Byddaf am gynnal trafodaethau â'r Cynulliad Cenedlaethol ar y materion hyn maes o law.


## Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

Ar adeg cyflwyno Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 roedd yn cael ei hystyried yn un o'r deddfau mwyaf blaengar ar gyfer ombwdsmyn ac mae'n cael ei chyfrif ymysg y goreuon o hyd yn y DU ac mewn gwledydd tramor. Fodd bynnag, mae profiad o redeg y swyddfa a newidiadau yn y byd y tu allan yn y saith mlynedd ers hynny wedi dangos bod lle i gryfhau, newid a datblygu rhannau o'r ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys y mater o gyflenwi gwasanaethau gan y sector preifat sydd wedi'i grybwyll uchod yn ogystal â materion fel pwerau 'ar ein menter ein hunain'. Yn ddieithriad bron, mae pŵer gan ombwdsmyn gwasanaethau cyhoeddus ledled Ewrop, a thrwy'r byd yn wir, i ymgymryd ag ymchwiliadau ar eu menter eu hunain. Mae pŵer o'r fath gan Ombwdsmon Gweriniaeth Iwerddon eisoes ac mae cynnig i'w gyflwyno yng Ngogledd Iwerddon hefyd. Felly rwyf wedi dechrau trafodaethau â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch adolygu'r ddeddfwriaeth er mwyn ei diwygio neu ei disodli. Mae'r ymateb cyntaf i'm cynigion wedi bod yn gadarnhaol ac edrychaf ymlaen at gael trafodaethau ar y mater hwn yn y dyfodol.

## Y Cynllun Strategol Tair Blynedd

Y flwyddyn ddiwethaf dechreuwyd gweithredu'r Cynllun Strategol tair blynedd newydd. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'n gweledigaeth, gwerthoedd, dibenion a nodau ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae'r cynllun yn parhau â gwaith y tair blynedd cynt pan gafwyd newidiadau sylweddol o ran ein dull o weithredu a'r mentrau a gyflwynwyd. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu'r Tîm Cyngor ar Gwynion, gwasanaeth rheng flaen y swyddfa sydd bellach yn gyfrifol hefyd am ddarparu gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru, a'n gwefannau arloesol newydd i ategu'r gwasanaethau hyn. Symleiddiwyd ein prosesau ymchwilio hefyd. Roedd angen gwneud hynny'n benodol oherwydd y cyfyngiadau ariannol sydd ar y swyddfa, yn yr un modd â'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, yn y cyfnod hwn ac oherwydd y cynnydd parhaus yn ein llwyth achosion.

Wrth gymharu'r sefyllfa yn y flwyddyn a aeth heibio â thair blynedd y Cynllun Strategol blaenorol, mae'n werth gwneud sylw am y cynnydd hwnnw. Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd cynnydd o 100% yn y nifer a gysylltodd â'r swyddfa, o 2,487 yn 2009/10 i 4,987 y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi'i ddangos isod. Byddaf yn edrych yn fwy manwl ar faint y gwaith, a'i effaith, yn yr adrannau sy'n dilyn yn yr adroddiad hwn.



Mae'r cynnydd parhaus yn nifer y cwynion am wasanaethau iechyd yn destun pryder sylweddol. Ers sefydlu'r swyddfa yn 2006/07, cafwyd cynnydd o 257% yn nifer y cwynion am gyrff iechyd. Rwyf wedi priodoli'r cynnydd a gafwyd yn y gorffennol i nifer o ffactorau, gan gynnwys mwy o ymwybyddiaeth o waith fy swyddfa, bod aelodau o'r cyhoedd yn fwy tebygol o fod yn barod i gwyno'n gyffredinol a newidiadau ym mhroses gwynion y GIG yn y blynyddoedd diwethaf. Ond mae'r cynnydd mawr a pharhaus yn nifer y cwynion yn arwain at y casgliad bod mwy o anfodlonrwydd ynghylch cyflenwi gwasanaethau iechyd. Mae hefyd yn werth nodi bod yr holl adroddiadau budd cyhoeddus a gyhoeddais yn 2012/13 yn ymwneud â materion iechyd (gweler Atodiad A). Cafwyd llawer o sylw yn y cyfryngau i wasanaethau cyhoeddus yn y maes hwn ac mae nifer cynyddol o weithwyr iechyd proffesiynol yn mynegi pryder a rhwystredigaeth o fewn y gwasanaeth. Ni all neb fychanu'r anhawster o ddarparu gwasanaeth mewn hinsawdd lle y mae adnoddau'n gyfyngedig a lle y mae mwy o alw am yr adnoddau hynny. Mae'n glir bod pobl yn disgwyl mwy yn sgîl eitemau newyddion cyson am ddatblygiadau newydd mewn meddygaeth, a'r gallu i drin clefydau a oedd gynt y tu hwnt i driniaeth. Fodd bynnag, a barnu ar sail y cwynion yr wyf wedi'u gweld, mae awgrym hefyd fod angen ailafael yn yr hanfodion yn y GIG yng Nghymru pan nad yw agweddau sylfaenol ar ofal fel darparu maeth priodol, cydsyniad priodol ar gyfer llawdriniaethau a llwybrau gofal diwedd oes wedi'u sicrhau.

## Llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn sefydlais Banel Cynghori newydd er mwyn sicrhau llywodraethu cadarnach a dangos gwaith fy swyddfa'n fwy agored a thryloyw. Roeddwn yn ffodus o allu ffurfio Panel amrywiol o aelodau sy'n cynnig arbenigedd a phrofiad o nifer o feysydd perthnasol. Rwyf yn trafod hyn ymhellach yn Adran 6 o'r adroddiad hwn. Er mai newydd ddechrau ar ei waith y mae'r Panel, mae eu profiad a'u golwg ehangach ar waith fy swyddfa yn werthfawr iawn.

Y flwyddyn ddiwethaf diolchais i Mr Laurie Pavelin am ei gymorth rhagorol fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio dros gyfnod o chwe blynedd. Manteisiaf ar y cyfle yn yr adroddiad hwn i ddweud fy mod yn falch iawn o benodi Mr Ceri Stradling yn olynydd iddo, a'i fod eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol.

Wrth ddiolch, rhaid cydnabod gwaith fy staff yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, wrth gwrs. Yn wyneb y cynnydd yn y llwyth achosion ac yng ngweithgareddau eraill y swyddfa, rwyf yn ddiolchgar iddynt am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb parhaus yn yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn ar fai hefyd pe na byddwn yn diolch yn arbennig i Mr Malcolm MacDonald, fy Nghynghorydd Ariannol, ar ei ymddeoliad. Mae Mr MacDonald wedi bod yn swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers ei sefydlu. Bu'n aelod staff gwirioneddol werthfawr a dymunaf yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, roedd fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2011/12 wedi'i ystyried gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na'i drafod mewn Cyfarfod Llawn. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei drafod fel hyn. Roeddwn yn croesawu'r datblygiad hwn yn fawr, ac rwyf yn ddiolchgar i'r Llywydd, Rosemary Butler, am ei hwyluso. Roeddwn yn falch o gael y cyfle i fod yn bresennol i drafod gwaith fy swyddfa yn hytrach na gorfod gwylio'r ddadl ar fy adroddiad o'r cyrion. Rwyf yn deall bod aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei weld yn ddatblygiad cadarnhaol hefyd. Edrychaf ymlaen at gael cyfle tebyg i drafod yr adroddiad hwn gyda'r Pwyllgor yn ystod 2013.

Peter Tyndall
Ombwdsmon

# 4. Cwynion Cod Ymddygiad

**Y prif ffigurau**

- Cawsom 291 o gwynion newydd, **29% yn llai** nag yn 2011/12
- Cyfeiriasom 20 o adroddiadau ar ymchwiliadau un ai at bwyllgor safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru, **5% yn fwy** nag yn 2011/12
- Caeasom 371 o achosion, **8% yn fwy** nag yn 2011/12
- Nid oedd unrhyw ymchwiliadau a oedd yn agored ers mwy na 9 mis ar 31 Mawrth 2013


## Cwynion a gafwyd

Mae dadansoddiad yn y tabl isod o'r cwynion a gafwyd o dan y Cod Ymddygiad yn ôl y math o awdurdod. Rwy'n falch bod y nifer o gwynion cod ymddygiad a dderbyniwyd yn fy swyddfa wedi gostwng 29% dros y flwyddyn ddiwethaf. I raddau helaeth mae hyn oherwydd i 2011/12 fod yn flwyddyn etholiad a bod y drefn cod ymddygiad wedi ei ddefnyddio yn amrhiodol fel arf ar gyfer creu drygioni gwleidyddol. Er hynny, credaf hefyd bod y gostyngiad hyn yn gallu cael ei briodoli i ryw raddau hefyd yn sgil llwyddiant y trefniadau datrysiad lleol newydd a gyflwynyd yn ddiweddar, sydd yn cael sylw pellach nes ymlaen yn yr adran hon.

| | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned | 140 | 205 |
| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | 150 | 178 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol | 0 | 28 |
| Awdurdod Heddlu | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **291** | **412** |

## Natur y cwynion Cod Ymddygiad

Fel y mae'r siart isod yn dangos, roedd y rhan fwyaf o'r cwynion a gafwyd yn 2012/13 yn ymwneud â materion 'cydraddoldeb a pharch' (35% o'i gymharu â 39% yn 2011/12). Ar ôl y cynnydd yn nifer y cwynion am 'wrthrychedd a phriodoldeb' a gafwyd yn 2011/12 at 25% (o'i gymharu â 10% yn 2010/11), mae'r nifer wedi dychwelyd at y lefel is o 8% o'r llwyth achosion Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.



## Crynodeb o'r canlyniadau i ymchwiliadau i gwynion Cod Ymddygiad

O'r achosion ynghylch cwynion o dan y Cod Ymddygiad a ystyriwyd yn 2012/13, roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cau dan y categori 'Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol' sydd wedi'i ddangos isod. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau fel y rhain:

- nad oedd tystiolaeth olwg gyntaf bod y Cod wedi'i dorri
- nad oedd y toriad honedig yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cynnal ymchwiliad (ac nad oedd yn debygol o arwain at sancsiwn)
- bod y gŵyn am ddigwyddiad a gafwyd cyn ethol yr aelod (cyn iddo gael ei rwymo gan y Cod).

Nifer yr achosion lle y penderfynais gyfeirio'r gŵyn un ai at bwyllgor safonau'r awdurdod neu at Banel Dyfarnu Cymru oedd 20 o'i gymharu â 19 yn 2011/12.

| **Cwyn am gorff cyhoeddus** | **2012/13** | **2011/12** |
|---|---|---|
| Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 283 | 280 |
| Tynnu'r gŵyn yn ôl | 12 | 0 |
| Terfynu'r ymchwiliad | 18 | 9 |
| Cwblhau'r ymchwiliad: Dim tystiolaeth o doriad | 23 | 7 |
| Cwblhau'r ymchwiliad: Dim angen cymryd camau | 15 | 29 |
| Cwblhau'r ymchwiliad: Cyfeirio at Bwyllgor Safonau | 15 | 15 |
| Cwblhau'r ymchwiliad: Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 5 | 4 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – cwynion Cod Ymddygiad** | **371** | **344** |

(Mae dadansoddiad manwl o'r canlyniadau i ymchwiliadau i gwynion Cod Ymddygiad, fesul awdurdod lleol, yn ystod 2011/12 yn Atodiad C.)


## Cyfnodau penderfynu

Mae'r cyfnodau penderfynu ar gyfer cwynion Cod Ymddygiad wedi'u dangos isod. Mae'r targedau amser sydd wedi'u gosod ar gyfer cwynion Cod Ymddygiad yn debyg i'r rheini ar gyfer cwynion am gyrff cyhoeddus, h.y.


- dweud wrth achwynwyr a fyddwn yn ymchwilio i'w cwyn o fewn 4 wythnos o'r dyddiad y cawn wybodaeth ddigonol am y gŵyn
- cwblhau achosion o fewn 12 mis ar ôl y penderfyniad i drafod y gŵyn (hynny yw, cychwyn ymchwiliad i gŵyn).

Ar gyfer y targed cyntaf, ac yn debyg i hwnnw ar gyfer cwynion am gyrff cyhoeddus, gosodwyd y nod yn uwch ar gyfer 2012/13 a cheisiwyd cyflawni hyn wrth ymateb i 90% o'r cwynion. Cyrhaeddwyd y targed yn achos 92% o'r cwynion. Mae hyn yn destun boddhad mawr o gofio ein bod yn gorfod delio â chwynion Cod Ymddygiad mewn ffordd wahanol i gwynion am gyrff cyhoeddus yn y camau cyntaf ac mai 82% oedd y ganran a gafwyd yn 2011/12.

**Cyfnodau penderfynu ar gyfer hysbysu achwynwyr y byddwn yn ymchwilio i'w cwyn**




**Cyfnodau penderfynu ar gyfer cwblhau ymchwiliadau i gwynion Cod Ymddygiad**



Rwyf wedi cyfeirio mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol at y camau yr ydym wedi'u cymryd i gwblhau ymchwiliadau i gwynion Cod Ymddygiad yn gynt ac at y ffaith bod y defnydd cynyddol o gynrychiolwyr cyfreithiol gan aelodau'n effeithio ar hyn yn aml. Er ei bod braidd yn siomedig nad ydym wedi sicrhau cyfnodau ymchwilio cystal â'r rheini a gafwyd yn 2011/12, rydym yn cwblhau ymchwiliadau'n fwy amserol o lawer nag yn y blynyddoedd cynt (er enghraifft, yn 2010/11 cymerwyd mwy na 12 mis i gwblhau 37% o achosion Cod Ymddygiad). Mae'r 3% o ymchwiliadau y cymerwyd mwy na 12 mis i'w cwblhau yn 2011/12 yn cyfateb i ddau achos. Yn yr achos cyntaf, cafwyd cais hwyr gan yr aelod a gyhuddwyd am wneud trefniadau penodol ar gyfer ei gyfweliad. O ganlyniad i hyn, methwyd y targed o 12 diwrnod. Yn yr ail achos, roedd adolygiad mewnol o adroddiad drafft ar yr ymchwiliad wedi dod i'r casgliad y dylid cyfeirio'r achos at Banel Dyfarnu Cymru yn hytrach na Phwyllgor Safonau. Oherwydd hyn roedd angen rhywfaint o waith ychwanegol, gan gynnwys rhai cyfweliadau pellach (y bu yna'n rhaid eu gohirio a'u haildrefnu oherwydd tywydd drwg).

## Cod Ymddygiad i aelodau awdurdodau lleol – newidiadau mewn ymarfer

Fel y nodais y llynedd, oherwydd pryderon ynghylch agweddau penodol ar y Cod a'r defnydd o gwynion at ddibenion gwleidyddol, cychwynnais drafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr a Llywodraeth Cymru ynghylch amryw o fesurau i ddiwygio system bresennol y Cod Ymddygiad na fyddent yn galw am ddeddfu. Amcan y mesurau hyn oedd cyflwyno proses ddatrys leol ledled Cymru a ddylai arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion gan gynghorwyr yn erbyn cynghorwyr eraill i'w hystyried gan fy swyddfa i.

Er nad yw dull 'Cymru gyfan' wedi'i fabwysiadu eto, mae rhai cynghorau sir wedi cyflwyno trefniadau o'r fath. Bydd y rhan fwyaf o'r cwynion hyn yn ymwneud â pharagraff 4(b) yn y Cod sy'n ymwneud â'r gofyniad i ddangos parch ac ystyriaeth a pharagraff 6(1)d sy'n nodi'r disgwyliad na fydd aelodau'n gwneud cwynion disylwedd neu faleisus. Lle y mae trefniadau o'r fath wedi'u gwneud, byddaf yn cyfeirio cwynion yn ôl i'w datrys yn lleol os yw hynny'n briodol. Mae llawer o'r materion sy'n achosi cwynion o'r fath yn rhai y mae'n well delio â nhw'n lleol, a gall hyn atal problemau rhag cynyddu a gwneud drwg i berthnasoedd gwaith. Mae'r adborth anecdotaidd gan y cynghorau sydd wedi cyflwyno trefniadau o'r fath yn awgrymu eu bod yn llwyddo ac yn cael yr effaith a fwriadwyd. Mae'n ymddangos bod y gostyngiad yn nifer y cwynion i'm swyddfa yn ategu hyn (gweler tudalen 16), er fy mod yn cydnabod bod 2011/12 yn flwyddyn etholiadol ac y byddai hyn wedi effeithio ar nifer y cwynion a gafwyd.

Mae'r agwedd arall ar y dull newydd o weithredu'n ymwneud ag aelodau cynghorau sir/bwrdeistref sirol a chynghorau tref/cymuned. Pan fyddaf yn penderfynu peidio ag ymchwilio i gŵyn neu, ar ôl dechrau ymchwiliad, yn penderfynu ei derfynu, byddaf yn ysgrifennu at y Swyddog Monitro lleol. Bydd hyn yn digwydd pan fyddaf o'r farn ei bod yn annhebygol, hyd yn oed pe byddai'r Pwyllgor Safonau yn cael bod y Cod wedi'i dorri, y byddai'n gosod sancsiwn. Bydd hyn wedyn yn fater i'w

ystyried gan y Swyddog Monitro. Os bydd ganddo farn wahanol am y tebygolrwydd o osod sancsiwn gan y Pwyllgor Safonau ar ôl penderfynu bod y Cod wedi'i dorri, byddaf yn trosglwyddo'r ymchwiliad iddo ef i'w ystyried yn lleol. Y flwyddyn 2012/13 oedd y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu'r dull newydd hwn. Yn ystod y flwyddyn cyfeiriais 37 o gwynion o'r fath at Swyddogion Monitro, ac roedd 2 o'r rhain wedi'u galw i mewn ar gyfer ymchwiliad lleol.

## Canllawiau ar y Cod Ymddygiad i Aelodau Awdurdodau Lleol

Cyhoeddais Ganllawiau ar y Cod Ymddygiad yn gyntaf yn Ebrill 2010. Y bwriad erioed oedd y byddai'r Canllawiau'n ddogfen fyw a fyddai'n cael ei diweddaru'n unol ag effaith penderfyniadau gan bwyllgorau safonau a thriwbiwnlysoedd Panel Dyfarnu Cymru. Cafodd y Canllawiau eu hadolygu'n helaeth a'u cyhoeddi ym Medi 2012, pan fanteisiais ar y cyfle i lunio fersiynau ar wahân i adlewyrchu amgylchiadau gwahanol yr aelodau o'r prif gynghorau ac aelodau o gynghorau cymuned. Rwyf wedi cael adborth cadarnhaol iawn ar y datblygiad hwn ac mae cynghorau cymuned yn benodol wedi bod yn falch o gael dogfen ganllaw sydd wedi'i haddasu yn ôl eu hamgylchiadau eu hunain.

Un achos penodol yn ystod y flwyddyn a oedd wedi fy arwain i newid y canllawiau oedd achos Calver. Roedd dyfarniad gan yr Uchel Lys ar yr achos hwn wedi effeithio ar y defnydd o baragraff 4(b) yn y Cod ynghylch dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill. Roeddwn wedi credu erioed fod dadlau gwleidyddol miniog yn rhan annatod o'r broses ddemocrataidd ac mae'r dyfarniad yn gymorth i bennu'r terfynau'n gliriach. Roedd y Cynghorydd Calver wedi'i gyhuddo o fethu dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill drwy bostio sylwadau ar-lein am gynghorwyr eraill a'r dull o redeg y Cyngor. Ar ôl ymchwilio, deuthum i'r casgliad bod ei ymddygiad yn debygol o fod yn groes i'r Cod. Roedd y Pwyllgor Safonau yn cytuno ac wedi rhoi cerydd iddo. Apeliodd y Cynghorydd Calver yn erbyn y penderfyniad hwn i un o dribiwnlysoedd y Panel Dyfarnu. Roedd y tribiwnlys wedi cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Safonau ac aeth y Cynghorydd Calver ymlaen i geisio adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn. Yn ôl y Llys, er bod y sylwadau a bostiwyd yn sarcastig a gwawdlyd a'u bod yn gwneud hwyl am ben ei gyd-aelodau, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â'r dull o redeg y Cyngor a chofnodi ei benderfyniadau a gallu'r cynghorwyr, ac felly roeddent yn fynegiant gwleidyddol. Yn y dyfarniad, dywedwyd nad oedd yr angen i wleidyddion fod â "chroen tewach" wedi'i ystyried. O ystyried rhyddid mynegiant yr aelod a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r sylwadau wedi'u cyfeirio at ei gyd-aelodau, roedd y penderfyniad bod y Cod wedi'i dorri yn yr achos hwn yn ymyrraeth anghymesur â hawliau'r Aelod dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly roedd penderfyniad y Pwyllgor Safonau i geryddu'r aelod wedi'i roi o'r neilltu.

Roedd Mr Ustus Beatson yn glir iawn wrth ddweud bod mwy o amddiffyniad i ryddid mynegiant aelod o gyngor dan y ddeddfwriaeth Hawliau Dynol pan fydd ei sylwadau o natur wleidyddol. Nid yw'r diffiniad o sylwadau 'gwleidyddol' yn cynnwys y rheini a wneir yn siambr y Cyngor yn unig ac mae'n cwmpasu, er enghraifft, sylwadau gan aelodau am bolisïau eu hawdurdod neu am eu gwrthwynebwyr gwleidyddol. O ganlyniad i'r dyfarniad hwn, rwyf wedi'i gwneud yn glir ei

bod yn annhebygol iawn y byddaf yn ymchwilio i gwynion am aelodau sy'n beirniadu polisïau neu berfformiad eu cyngor neu, yn wir, eu gwrthwynebwyr gwleidyddol. Datganodd Mr Ustus Beatson fod angen i gynghorwyr fod â "chroen tewach" wrth ddelio â sylwadau a wneir am resymau gwleidyddol, ac wrth ymateb iddynt. Rwyf hefyd wedi gorfod ystyried yn ofalus beth yw'r goblygiadau o ran sylwadau am swyddogion. Os bydd aelodau'n codi materion y gellid eu hystyried yn wleidyddol gyda swyddogion, yn enwedig y rheini mewn swyddi uwch fel prif weithredwyr neu gyfarwyddwyr strategol, yna mae'n glir bod rhywfaint o amddiffyniad i aelodau. Mae'n amlwg y bydd angen "croen tewach" ar uwch swyddogion hefyd wrth ymateb i faterion o'r fath ac y dylent ddisgwyl cael trafodaethau cadarn ag aelodau. Er hynny, mae'n glir y bydd angen i swyddogion is gael eu hamddiffyn o hyd gan y Cod a hyd yn oed yn achos swyddogion uwch y bydd yn rhaid cael terfyn ar yr amdiffyniad cyfreithiol sydd gan aelodau. Felly, byddaf yn parhau i ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau. Dylwn ychwanegu hefyd nad yr un peth o reidrwydd yw'r hyn y gellir ei ganiatáu dan y gyfraith a'r hyn sy'n ddymunol ac rwyf yn annog pob aelod i ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos parch ac yn adlewyrchu'n dda ar lywodraeth leol.

## Gwrandawiadau Pwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru – Terfyn Indemnio

Rwyf wedi'i gwneud yn glir o'r blaen fy mod yn credu bod angen delio â lefel yr indemniad sydd ar gael i aelodau sydd wedi'u cyhuddo o dorri'r Cod. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd anodd sy'n effeithio ar bawb. O gael indemniad diderfyn, gall achosion o flaen tribiwnlysoedd barhau am fisoedd neu'n hirach byth, wrth dalu'n ddrud iawn am wasanaeth cwnsler. Credaf yn gryf y dylai aelodau allu eu hamddiffyn eu hunain, ond bod rhaid i'r gwariant cyhoeddus ar hyn fod yn gymesur. Cynigiais derfyn uchaf o £10,000, i adlewyrchu'r terfyn costau mewn tribiwlysoedd cyflogaeth. Wrth drafod â swyddogion monitro a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, codwyd y terfyn hwn i £20,000, ac roeddwn yn barod i gefnogi hyn. Fodd bynnag, er bod rhai cynghorau wedi gosod terfyn o'r fath eisoes, neu'n barod i gyflwyno terfyn o'r fath, mae eraill wedi dweud nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny. Y rheswm am hyn mewn rhai achosion yw bod yr indemniad wedi'i seilio ar yswiriant. Dywedodd y Gweinidog blaenorol dros lywodraeth leol y byddai'n delio â'r mater drwy ddeddfu os na ellid sicrhau cytundeb gwirfoddol. Nodaf fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi adrodd fod Arweinwyr Cynghorau yn cefnogi cyflwyniad cap ar indemniad a gobeithiaf y ceir cytundeb gwirfoddol. Er hynny, buaswn yn cefnogi deddfu yn niffyg hynny.

# Atodiad C

## Cwynion Cod Ymddygiad:

## Dadansoddiad Ystadegol o'r Canlyniadau Fesul Awdurdod Lleol

## CYNGHORAU TREF/CYMUNED

| Cyngor Tref/Cymuned | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinas Bangor | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Bugeildy | 18 | | | | | | | **18** |
| Cymuned Bodelwyddan | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref Aberhonddu | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Bwcle | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Cil-y-coed | 1 | 1 | | | | | | **2** |
| Tref Caerfyrddin | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Clydach | 1 | 1 | | | | | | **2** |
| Cymuned Coed-poeth | | | | | | 2 | | **2** |
| Tref Crucywel | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Cwmbrân | | | | | | | 1 | **1** |
| Cymuned Diserth a Thre-coed | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thal-y-bont | 2 | | | 1 | | | | **3** |
| Tref Gorseinon | 2 | | | | 1 | | | **3** |
| Cymuned Herbrandston | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Johnston | 1 | | | | | | | **1** |

## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 4 | | 1 | 1 | | | | **6** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Caerffili | 4 | | 1 | | | | 1 | **6** |
| Caerdydd | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Caerfyrddin | 6 | 1 | 2 | 1 | | | | **10** |
| Ceredigion | 1 | | | 2 | | 1 | | **4** |
| Conwy | 2 | | | | | | | **2** |
| Dinbych | 4 | | | | | | | **4** |
| Sir y Fflint | 4 | | | | | | | **4** |
| Gwynedd | 4 | 2 | | | 1 | | | **7** |
| Ynys Môn | 5 | | | | | | 1 | **6** |
| Merthyr Tudful | 7 | | 2 | | | 1 | | **10** |
| Sir Fynwy | 2 | 1 | 1 | | 1 | | | **5** |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | | | | 1 | | | **3** |
| Casnewydd | 1 | | | | | | 1 | **2** |
| Penfro | 3 | | | | 1 | | | **4** |
| Powys | 4 | | | | 1 | | | **5** |
| Rhondda Cynon Taf | 11 | | 1 | | | | 2 | **14** |
| Abertawe | 34 | 1 | 6 | | | | 2 | **43** |
| Bro Morgannwg | 1 | | | | | | | **1** |
| Tor-faen | 4 | | | 3 | 1 | | | **8** |
| Wrecsam | 11 | 1 | | | | | | **12** |
| **CYFANSWM** | **118** | **6** | **16** | **7** | **6** | **2** | **7** | **162** |

## CYNGHORAU TREF/CYMUNED

| Cyngor Tref/Cymuned | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymuned Ceri | 4 | | | | | | | **4** |
| Tref Trefyclo | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llandegla | | 4 | | | | | | **4** |
| Tref Llanymddyfri | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref Llandrindod | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref Llandudno | | | | | 1 | | | **1** |
| Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llan-gan | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llangernyw | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llangoed a Phenmon | 1 | | 1 | | | | | **2** |
| Cymuned Llangynwyd Isaf | 8 | 2 | | | | | | **10** |
| Cymuned Llangynwyd Ganol | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llantrisant | | | | | | 1 | | **1** |
| Tref Llanilltud Fawr | 6 | | | | | | | **6** |
| Tref Maesteg | 1 | | | | 1 | | | **2** |
| Tref Trefynwy | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned y Mwmbwls | 2 | | | | | | 1 | **3** |

## CYNGHORAU TREF/CYMUNED (PARHAD)

| Community/ Town Councils | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tref Nant-y-glo a'r Blaenau | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Pentref Llaneirwg | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Penmaen-mawr | | | | 1 | | | 2 | **3** |
| Cymuned Penmynydd a Star | | | | | 6 | | | **6** |
| Cymuned Pennard | 6 | | | | | | | **6** |
| Tref Porthcawl | 1 | | 1 | | | | | **2** |
| Tref Prestatyn | 68 | 2 | | | | | | **70** |
| Cymuned y Pîl | 3 | | | | | | 1 | **4** |
| Cymuned Resolfen | | 1 | | | | | | **1** |
| Cymuned Rogiet | 5 | | | | | | | **5** |
| Cymuned Blaendulais | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Sain Dunwyd | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Saint Harmon | 2 | | | 1 | | | | **3** |
| Cymuned Tryleg Unedig | 1 | 1 | | | | | | **2** |
| Tref Tywyn | 1 | | 1 | | | | | **2** |
| Cymuned y Fan | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned y Wig | | | | 1 | | | | **1** |
| Cymuned Ystalyfera | 1 | | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | **164** | **12** | **3** | **4** | **9** | **3** | **5** | **200** |

## AWDURDODAU PARC CENEDLAETHOL

| Awdurdod Parc Cenedlaethol | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | | | 3 | 4 | | | | 7 |
| **CYFANSWM** | | | **3** | **4** | | | | **7** |

## AWDURDODAU HEDDLU

| Awdurdod Heddlu | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwent | | | 1 | | | | | 1 |
| Gogledd Cymru | 1 | | | | | | | 1 |
| **CYFANSWM** | **1** | | **1** | | | | | **2** |